


## Diwrnodau Pontio



Bydd disgyblion **Blwyddyn 6** yn pontio i'r ysgolion uwchradd ddydd Llun a dydd Mawrth wythnos nesaf. Mae'r trefniadau eisoes wedi eu cyfathrebu gyda rhieni. Dydy disgyblion blwyddyn 6 ddim yn dod i safle'r Ysgol Gymraeg o gwbwl yn ystod y deuddydd hyn.

**Bydd gweddill yr ysgol** yn pontio yn ystod y wers gyntaf ar ddydd Mawrth, gan dreulio sesiwn yn y dosbarth newydd maen nhw'n debygol o fod ym mis Medi. Bydd nodyn ym mag eich plentyn ar ddydd Mawrth yn dweud ym mha ddosbarth y treuliodd y bore. Byddwn yn gwerthuso'r bore yn dilyn y pontio.

Cofiwch fod yn bositif gyda'ch plentyn am y newid. Yn aml iawn dydyn ni fel pobl ddim yn hoffi newid, ond bydd y plant yn dawelach eu meddyliau os ydynt yn clywed pethau positif gennych chi.

## *Transitioning days*

***Year 6** pupils will be transitioning to the secondary schools on Monday and Tuesday next week. The arrangements have already been communicated with parents. Year 6 pupils will not be coming to Ysgol Gymraeg at all during these two days.*

***The rest of the school** will be transitioning during the first lesson on Tuesday, spending a session in the new class they are likely to be in come September. A note in your child's bag on Tuesday will say which class they spent the morning in. We will be evaluating the morning following the transition.*

*Please remember to be positive with your child about the change. Often we, as people, don't like change, but the children will feel more at ease if they hear positive things from you.*

---

## Gŵyl Chwaraeon Bl.1a2



Ar brynhawn **dydd Llun y 30ain o Fehefin** bydd disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn mynychu Gŵyl Chwaraeon a drefnir gan Ceredigion Actif ar gae-pob-tywydd y Brifysgol. Bydd angen i'r plant wisgo dillad addas gydag esgidiau addas, gan ddod â photel o ddŵr hefyd. Anfonwch het haul ac eli haul hefyd os yw'r tywydd yn braf.

## *Sports Festival for Years 1 & 2*

*On the afternoon of **Monday, 30th June**, Year 1 and Year 2 pupils will attend a Sports Festival organised by Ceredigion Actif on the University's all-weather pitch. Children will need to wear appropriate clothing and suitable footwear, and bring a bottle of water. Please also send a sun hat and sun cream if the weather is sunny.*

---

## Proms Ceredigion



Cynhelir Proms Ceredigion nos Fercher wythnos nesaf (**2ail o Orffennaf**) am 7 o'r gloch yn y Neuadd Fawr. Bydd disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gerddorfa, y Côr, a bydd y Grŵp Dawns Aml-gyfrwng yn perfformio hefyd. Pris mynediad yn £10. Mae'r manylion llawn eisoes wedi eu rhannu gyda'r rhieni mewn e-bost.

## *Ceredigion Proms*

*Ceredigion Proms will be held next Wednesday evening (**2nd July**) at 7 o'clock in the Great Hall. Pupils from the school will be taking part in the Orchestra and the Choir, and the Multi-media Dance Group will also be performing.*
*Entry price is £10. Full details have already been shared with parents via email.*

---



## Mabolgampau Cylch Aberystwyth

Bydd y Mabolgampau Cylch yn cael eu cynnal ar Gaeau Ysgol Penweddig ar **ddydd Iau y 3ydd o Orffennaf**. Mae Mr Griffiths eisoes wedi rhannu'r manylion gyda'r disgyblion sy'n cymryd rhan, gan gynnwys amserlen y dydd. Mae croeso i rieni ddod i gefnogi.

## *Aberystwyth Area Sports*

*The Area Sports Day will be held on the fields of Ysgol Penweddig on **Thursday, 3rd July**.*
*Mr Griffiths has already shared the details with the pupils taking part, including the day's timetable. Parents are welcome to come and support on the day.*

---




## Barbeciw Haf y G.Rh.A

Mae aelodau'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn brysur yn paratoi at ddigwyddiad mawr yr haf – sef ein Barbeciw Haf ni a gynhelir ar nos Iau olaf y tymor sef y 17eg o Orffennaf. Yn ogystal ag eitemau'r plant, bydd stondinau amrywiol ar gael a gemau o bob math! Os ydych yn hapus i gefnogi ar stondin am tua hanner awr ar y noson cysylltwch â'r G.Rh.A os gwelwch yn dda ar crha.ysgol.gymraeg@gmail.com
Bydd tocynnau bwyd yn mynd ar werth o'r 7fed o Orffennaf ymlaen gan Mrs Wendy James yn y swyddfa (a bydd bwrdd ger y prif fynedfa)

Am fanylion llawn gwelwch yn poster ar waelod y llythyr hwn. Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.

## *P.T.A's Summer Barbeque*

*Members of the Parent Teacher Association are busy preparing for the big summer event – our Summer Barbecue, which will be held on the last Thursday of this term, the 17th of July.*
*As well as performances by the children, there will be various stalls and all kinds of games!*
*If you're happy to help on a stall for about half an hour on the evening, please contact the PTA on crha.ysgol.gymraeg@gmail.com*
*Food tickets will go on sale from the 7th of July onwards from Mrs Wendy James in the office (there will also be a table near the main entrance). For full details, please see the poster at the bottom of this letter. Thank you in advance for your support.*

---

## Gofalwyr ifanc

Rydym wrthi yn diweddaru ein rhestr o ddisgyblion sydd yn ofalwyr ifanc. A fyddech gystal ag e-bostio Mrs Wendy James – swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk yn rhoi gwybod os oes gennych blentyn sy'n ofalwr ifanc.

## *Young carers*

*We are currently updating our list of pupils who are young carers.*
*Please could you email Mrs Wendy James – swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk to let us know if you have a child who is a young carer.*

---




## Gwybodaeth ychwanegol

Atodaf wybodaeth ychwanegol ar ddiwedd y llythyr hwn – maent yn bosteri am ddigwyddiadau lleol amrywiol i'ch cynorthwyo chi fel rhieni a gofalwyr gyda gweithgareddau.

## *Additional information*

*I am attaching additional information at the end of this letter - they are posters about various local events to assist you as parents and carers with activities.*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.
Instagram

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram




### Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r 🖱 Calendr Hanner Tymor
Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

### *Half term Calendar*

*Here is the link to the 🖱 Half Term Calendar*
*A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

---

**Dyddiadau pwysig Tymor yr haf:**


- Ffarwelio dros y ffens : Gorffennaf 7fed
- Barbeciw Haf y G.Rh.A : Gorffennaf 17eg
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 18fed
- Blwyddyn ysgol newydd yn cychwyn : Medi 3ydd

***Summer term important dates:***

- *Farweling over the fence¬*
- *PTA Summer Barbeque : July 17th*
- *Last day of term : July 18th*
- *New school year begins : September 3rd*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**27/06/2025**
🖱 www.ysgolgymraeg.cymru







Rygbi Ysgolion
Ceredigion
Schools Rugby
GOLUD GWLAD RHYDDID
o dan/
under
11
Os am drafod ymhellach/
Please direct any queries to:
RichardsC484@hwbcymru.net
DIWRNOD ADNABOD CHWARAEWYR
YSGOLION CEREDIGION SCHOOLS
PLAYER IDENTIFICATION DAY
Dydd Mawrth 01.07.2025 Tuesday
10:30-14:00
Caeau Ymarfer Cwmann Training Fields, SA48 8DU
Agored i ferched a bechgyn Blwyddyn 5 a 6 Medi 2025. Nid oes rhaid bod yn aelod o glwb rygbi. Dylai pob disgybl sy'n mynychu drefnu cludiant eu hunain. Bydd angen pecyn bwyd a photeli dŵr arnynt. Bwriedir gwahodd y rhai llwyddiannus i ail rownd o dreialon ar ddydd Sul y 6ed o Orffennaf.
Open to girls and boys who will be in Years 5 and 6 in September 2025. Club experience is not essential. All attendees must arrange their own transport to and from the ID day and must bring a packed lunch, plenty of water and appropriate clothing with them. Please note that if successful in the first trial, players will be invited to a second trial which will be held on Sunday the 6th of July.


Haf o Digwyddiadau Gwyddoniaeth!
The Big Science Project
Rydyn ni yng Ngheredigion!
Ymunwch â ni am wersylloedd gwyddoniaeth dros yr Haf, diwrnodau llawn gydag amrywiaeth o themâu gwyddoniaeth gan gynnwys ...
PENRHYNCOCH:
Cwest Deinosoriaid Gorffennaf 29ain
Cemeg Lliwgar Awst 22ain
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt Awst 27ain
ABERAERON:
Cwest Deinosoriaid Awst 6ed
Gwyddoniaeth Fforensig Awst 18fed
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt Awst 27ain
ABERTEIFI:
Microbau Bach Gorffennaf 28ain
Gofod a Grymoedd Awst 14eg
Cemeg Lliwgar Awst 26ain
LLANBEDR PONT STEFFAN:
Cwest Deinosoriaid Gorffennaf 30ain
Rhyfeddodau Bywyd Gwyllt Awst 11eg
£39 y plentyn
(£7.09 yr awr)
Pob Digwyddiad: 9.30am - 3.00pm
Addas ar gyfer oedrannau 5-12
Mae archebu ymlaen llaw yn hanfodol
Am ragor o wybodaeth ac i archebu ewch i
www.thebigscienceproject.co.uk
(Digwyddiadau gollwng a chasglu)


Summer of Science Events!
The Big Science Project
We're in Ceredigion!
Join us for full day science camps with a variety of science themes including ...
PENRHYNCOCH:
Dino Quest July 29th
Colourful Chemistry August 22nd
Wildlife Wonders August 27th
ABERAERON:
Dino Quest August 6th
Forensic Science August 18th
Wildlife Wonders August 27th
CARDIGAN:
Mini Microbes July 28th
Space & Forces August 14th
Colourful Chemistry August 26th
LAMPETER:
Dino Quest July 30th
Wildlife Wonders August 11th
£39 per child
(That's £7.09 per hour)
All Events: 9.30am - 3.00pm
Suitable for ages 5-12
Pre booking is essential
For more information & to book visit
www.thebigscienceproject.co.uk
DROP OFF/PICK UP ONLY